# Abraham a Lot



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Mae'r wers wythnos yma yn dod o Genesis 13:2—18. Hanes Abraham a Lot yn gwahanu a mynd gwahanol ffyrdd sydd yma. Y gwersi allweddol dysgir yn y darn yma i ni a'n plant yw:

- Ein dewisiadau, oherwydd maent yn cael canlyniadau.
- Mae Duw yn ein hanrhydeddu pan rydym yn rhoi pobl eraill yn gyntaf.
- Mae ffyrdd Duw yn fwy pwysig na sut mae pethau'n edrych yn gorfforol.
- Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus at bwy rydym yn agosáu.

Video playlist

inc video lesson

## Canllaw y Wers

Cyn dechrau'r wers wythnos yma, trefnwch ddewisiad o fisgedi. Gwnewch yn siŵr bod rhai yn gyfan a rhai wedi torri. Gallwch hefyd ddefnyddio ffrwythau, rhai sy'n edrych yn berffaith ac eraill sy'n edrych yn hen neu'n gleisiog. Gwahoddwch eich plentyn i ddewis byrbryd o'r plât. Mae'n debygol byddent yn dewis y byrbryd perffaith neu'r un sydd yn edrych gorau.










Darllenwch Genesis 13:2-18 neu aralleiriwch y darn mewn ffordd ddealladwy i'ch plentyn.

Gofynnwch "pam bod dynion Abraham a Lot wedi dadlau?" Roeddynt i gyd eisiau beth oedd gorau iddyn nhw. Rhowch esiampl o adeg efallai byddwn eisiau'r gorau i ni ein hunain a'r ail orau i rywun arall. Rhannwch fel mae Duw eisiau'r gorau i ni. Rhoddodd Duw Ei orau pan ddaeth yr Iesu i'n hachub.

Gofynnwch "Pwy gafodd y dewis cyntaf? Pam dewisodd Lot y wlad yna?" Oherwydd roedd yn edrych y gorau. Chwaraewch gêm gan roi i'ch plentyn ddewisiadau gwahanol. Gallwch eu cael i eistedd, sefyll neu redeg i ochrau cyferbyniol o'r ystafell. Er enghraifft, pa ffrwyth yw'r gorau, afalau neu fananas?

Rhannwch fel mae ein dewisiadau i gyd yn cael canlyniadau.

Siaradwch am sut dylwn weddïo a gofyn i Dduw ein helpu i wneud dewisiadau doeth. Eglurwch fod pethau weithiau yn edrych yn dda yn ein barn ni ond maen nhw'n wir ddrwg i ni.

Cyn dechrau, chwistrellwch afal neu fanana gyda lliw bwyd tywyll. O'r tu allan bydd dal i edrych yn berffaith. Gofynnwch i'ch plentyn os yw'r ffrwyth yn edrych yn neis i'w fwyta. Wedyn torrwch neu biliwch y ffrwyth i ddangos y tywyllwch tu mewn. Atgoffwch y plentyn dylem ddim barnu rhywbeth o'r ffordd mae'n edrych.

Gwelodd Lot y glaswellt gwyrdd a meddyliodd mai hwn byddai'r tir gorau. Eglurwch tra'i fod yn edrych y gorau, roedd yn agos i fobl drwg oedd yn gwneud pethau drwg. Byddwn yn trafod mwy ar Sodom a Gomorra yn y wers wythnos nesaf.

Siaradwch am fel mae rhai pethau yn medru edrych yn dda ond maent yn achosi niwed. (Rhedeg i ffwrdd neu oddi wrth oedolyn, cymryd losin gan rywun diarth a.y.b.)

Gweddïwch gyda'ch gilydd a gofynnwch i Dduw eich helpu i wneud dewisiadau doeth.

© 2022 truewaykids.com



Gwahanodd Abraham a Lot.
Roedd Abraham yn byw mewn pebyll yng ngwlad Canan.
Symudodd Lot yn agos i ddinas Sodom. Roedd yn llawn o fobl drygionus. Siaradodd Duw eto gydag Abraham. Dywedodd Duw wrtho am edrych o'i gwmpas.
Popeth roedd yn gallu gweld, byddai Duw un diwrnod yn ei roi iddo.







Roedd Abraham, Sara a'u nai, Lot yn byw mewn pebyll ac yn symud o gwmpas Gwlad Canan. Bendithiodd Duw nhw.
Tyfodd Lot i fyny. Roedd gan yntau praidd mawr a llawer o fobl yn gweithio iddo.
Pob dydd, byddai'n rhaid i Abraham a Lot dod o hyd i ddŵr a bwyd i'w anifeiliaid i gyd.



Cyn bo hir, roedd problem. Dechreuodd y dynion oedd yn gweithio i Abraham a Lot dadlau. Roeddynt i gyd eisiau'r glaswellt gorau i'w anifeiliaid. Doedd y tir ddim yn ddigon mawr i edrych ar ôl eu hanifeiliaid i gyd. Roedd yn rhaid i Abraham a Lot gwahanu a mynd i wahanol gyfeiriadau.





Dywedodd Abraham wrth Lot i ddewis y tir roedd eisiau. Byddai Abraham yn cael y llall.

Edrychodd Lot a gwelodd bod gwastadedd Iorddonen yn wyrdd a ffrwythlon.

Penderfynodd dewis y tir gorau iddo'i hun.

# Chwaraeon a gweithgareddau

## Rhannu

Gosodwch wrthrychau allan ar y bwrdd. Gallwch ddefnyddio blociau tegan, cardiau tegan, ffrwythau neu unrhyw beth.

Gofynnwch i'ch plentyn eu rhannu allan yn gyfartal.

Dechreuwch gyda rhannu rhwng dau berson. Os yw eich plentyn yn darganfod bod hyn yn rhy hawdd, gwnewch y gêm yn fwy cyffroes trwy rannu rhwng mwy nag un person.





## Gardd neu ymweliad fferm

Ewch am dro o gwmpas gardd neu fferm sy'n agos i'ch tŷ.

Wrth gerdded o gwmpas, ceisiwch ddarganfod lliwiau amrywiol a'r

gwahanol arlliwiau sydd ynddynt.

## Beth yw'r gorau?

Mae'r gem yma mor hawdd gallwch ei chwarae unrhyw le. Yn syml, gofynnwch i'ch plentyn ddewis ei ffefryn neu'r gorau. Er enghraifft, beth yw'r gorau, hufen iâ siocled neu mefus?

Glas neu binc?

Golau neu dywyll?

Reidio beic neu redeg?




© 2022 truewaykids.com

Torrwch allan y sgwariau ac wedyn cydweddwch y rhai cyferbyniol.

Am sialens mwy, trowch nhw drosodd a'u chwarae fel gem cof.




© 2022 truewaykids.com

Sawl dafad sydd yma? ☐



Rhannwch y defaid rhwng Abraham a Lot.

© 2022 truewaykids.com

# Nodwch bump gwahaniaeth






© 2022 truewaykids.com

Gwelodd Lot bod un ochr yn wyrdd ac yn dda i'w ddefaid.

Lliwiwch un ochr o'r llun yn wyrdd a'r llall yn felyn a brown.




© 2022 truewaykids.com

# Crefft Defaid Papur

## Pethau byddwch angen:-


- Tudalen templed
- Papur lliw (gwyrdd a glas)
- Siswrn
- Glud




## Beth i'w wneud:-




Argraffwch a thorrwch allan y tudalen templed.



Rhwygwch bapur gwyrdd i wneud glaswellt.



Torrwch fyny'r papur sbâr mewn darnau bach a gludwch ar y papur glas.



Gludwch gyrff y defaid arno a'u gorchuddio gyda darnau gwyn.




Gludwch y pennau.



Torrwch sleisau yn y papur gwyrdd i ffurfio effaith glaswellt 3D.

© 2022 truewaykids.com







© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

© 2022 truewaykids.com



# Amser addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.
Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Show me Your Ways

https://youtu.be/7bCloxL_9Zw

## One Way

https://youtu.be/KCLWPd5Yj9c

## Every Move I Make

https://youtu.be/MPvnZILn6EY



# Amser gweddi

Diolchwch i Dduw am ein helpu i wneud dewisiadau doeth.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i edrych am Ei gymorth ac i roi eraill yn gyntaf.

# Wythnos nesaf

Sodom a Gomorrah

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com